Cyngor Bro Morgannwg

# CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL 2024-2025

## Fersiwn Hawdd Ei Darllen



VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

Mae copi o'r Cynllun ar gael yn Saesneg.

A copy of this plan is available in English.



# Beth yw'r Cynllun Cyflawni Blynyddol?

Mae'r Cynllun Cyflawni Blynyddol (CCB) yn gynllun y mae'r Cyngor yn ei greu bob blwyddyn i lywio ei waith dros y 12 mis nesaf. Mae'r CCB yn rhan o'r Cynllun Corfforaethol 2020-2025, ac mae CCB newydd yn cael ei greu ar gyfer pob blwyddyn o'r Cynllun Corfforaethol. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn gynllun y mae'r Cyngor yn ei ysgrifennu bob pum mlynedd er mwyn cynllunio ei waith i ddarparu'r gwasanaethau gorau posib i drigolion Bro Morgannwg.

Mae gan Gynllun Cyflawni Blynyddol 2024-25 bedwar prif nod, o'r enw Amcanion Lles, y bydd y Cyngor yn canolbwyntio ei waith arnynt. Mae tair Her Gritigol i'r cynllun hefyd - dyma'r tair her bwysicaf i Fro Morgannwg ar hyn o bryd.







# Beth yw'r Amcanion Lles?

Mae'r Amcanion Lles yn bedwar nod y mae'r Cyngor yn anelu at eu cyflawni. Bydd ein gwaith am y 12 mis nesaf yn canolbwyntio ar gyflawni'r amcanion hyn.

## Amcan Un: Gweithio gyda a thros ein cymunedau

Bydd y Cyngor yn gwrando ar beth sydd ei angen ar gymunedau ac yn rhoi cyfleoedd iddyn nhw gymryd rhan wrth siapio'n gwaith.

## Amcan Dau: Ategu dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy

Bydd y Cyngor yn helpu i greu swyddi a chefnogi dysgu i bobl y Fro, wrth feddwl am yr amgylchedd hefyd.

## Amcan Tri: Cynorthwyo pobl gartref ac yn eu cymuned

Bydd y Cyngor yn gwneud yn siŵr bod gofal a chymorth ar gael i bobl sydd ei angen.

## Amcan Pedwar: Parchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd

Bydd y Cyngor yn gwarchod ein hamgylchedd ac yn annog pawb i wneud yr un peth, fel y gallwn ni i gyd ei fwynhau.



# Beth yw'r Heriau Critigol?

Yn ogystal â'r pedwar Amcan Lles, neu nodau, mae gan y Cyngor hefyd dair her y mae'n credu sydd bwysicaf ar hyn o bryd. Bydd y Cyngor yn canolbwyntio ei waith o gwmpas ymateb i'r heriau hyn, er mwyn cyflawni'r Amcanion Lles.

## Gwydnwch Sefydliadol (ein harian, ein pobl, ein hasedau ac ymgysylltu â'r cyhoedd)

Bydd y Cyngor yn gwrando ar yr hyn ddywed preswylwyr wrthym a pharhau i ddarparu gwasanaethau er bod costau'n codi, a sicrhau bod pobl eisiau gweithio i'r Cyngor.

## Argyfwng Costau Byw

Bydd y Cyngor yn darparu cymorth i helpu gyda chostau byw cynyddol, fel costau ynni a phrisiau bwyd cynyddol.

## Yr Argyfyngau Hinsawdd a Natur

Bydd y Cyngor yn ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur drwy leihau ein hallyriadau carbon, gwella ein hadeiladau, a hyrwyddo teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus.

Prosiect Zero Project







Sut ydyn ni'n mynd i gyflawni ein Hamcanion Lles?

# Amcan Un:

## Gweithio gyda a thros ein cymunedau

### Yn 2024-25 byddwn yn:

1. Gwella sut rydym yn cyfathrebu gyda thrigolion drwy ein gwefan a'r ganolfan cyswllt cwsmeriaid.
2. Gwella sut rydym yn darparu gwybodaeth am ein gwaith a'r effaith y mae'n ei chael.
3. Gweithio gyda'r gymuned i ddatblygu cynlluniau creu lleoedd yn ein trefi.
4. Creu Cynllun Corfforaethol pum mlynedd newydd Plan 2025-2030.
5. Gweithio gyda sefydliadau gwirfoddol a chymunedol, a chynghorau tref a chymuned i ddarparu gwasanaethau lleol.
6. Bwrw ymlaen â'n Strategaeth Ddigidol newydd i ddarparu profiad ar-lein mwy cadarnhaol i gwsmeriaid.
7. Cyflawni'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.
8. Cyflawni'r Cynllun Gweithredu Sy'n Dda i Bobl Hŷn, gan wneud y Fro yn lle gofalgar a chefnogol i fyw ynddo.
9. Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.
10. Cefnogi aelodau o'r lluoedd arfog, cyn-filwyr, aelodau o'u teuluoedd a gweddwon.

11. Gwneud yn siŵr ein bod yn ystyried gwerth cymdeithasol a newid yn yr hinsawdd wrth brynu nwyddau a gwasanaethau.
12. Edrych ar sut i barhau â'n gwasanaethau mewn ymateb i gostau a phwysau cynyddol.
13. Gwneud yn siŵr ein bod yn defnyddio ein hadeiladau yn y ffyrdd gorau i gefnogi'r gymuned.
14. Rheoli adeiladau'r Cyngor mor ddefnyddiol â phosibl.
15. Canolbwyntio ar les ein staff a bod yn gyflogwr da.
16. Cynyddu dealltwriaeth o rôl aelodau etholedig.










## Sut ydyn ni’n mynd i gyflawni ein Hamcanion Lles?

# Amcan Dau:

**Ategu dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy**

### Yn 2024-25 byddwn yn:

1. Sicrhau bod ysgolion yn cael eu cefnogi i gyflawni’r canlyniadau gorau ar gyfer pob dysgwr.
2. Cefnogi iechyd meddwl a lles pobl ifanc mewn ysgolion.
3. Helpu ein hysgolion i gefnogi’r rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.
4. Cefnogi ysgolion i gynyddu presenoldeb.
5. Gweithio gyda phartneriaid i edrych ar gost ac argaeledd trafnidiaeth ysgol yn ogystal â hyrwyddo teithio lleso.
6. Buddsoddi yn ein hadeiladau ysgol ac mewn ysgolion newydd.
7. Gweithio gyda phartneriaid i greu swyddi a datblygu sgiliau ar gyfer y dyfodol.
8. Gweithio gyda chyflogwyr a phartneriaid lleol i ddarparu mwy o brentisiaethau.
9. Darparu cyllid i fusnesau i’w galluogi i ddatgarboneiddio a thyfu.
10. Defnyddio buddsoddiad £20 miliwn llywodraeth San Steffan ar gyfer y Barri i gefnogi’r ardal.
11. Defnyddio cyllid allanol i wella cymunedau fel canol trefi.
12. Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu hen safle Gorsaf Bŵer Aberddawan ac Ardal Fenter Bro Tathan a Maes Awyr Caerdydd i greu swyddi yn yr ardal.



Sut ydyn ni'n mynd i gyflawni ein Hamcanion Lles?

# Amcan Tri:

## Cynorthwyo pobl gartref ac yn eu cymuned

### Yn 2024-25 byddwn yn:

1. Cefnogi pobl trwy'r argyfwng costau byw.
2. Gweithio gyda'n cymunedau mwyaf difreintiedig drwy ymgysylltu a mapio cymunedol.
3. Gweithio gydag ysgolion i gefnogi'r gymuned ehangach.
4. Gweithio gyda sefydliadau a chymunedau lleol i gynnal cyfleusterau lleol fel meysydd chwaraeon, neuaddau cymunedol, parciau, rhandiroedd a chyfleusterau cyhoeddus.
5. Gweithio mewn partneriaeth i hyrwyddo cyfleoedd hamdden, chwarae a chwaraeon a chefnogi lles pobl ifanc.
6. Hyrwyddo gweithgareddau hamdden drwy fuddsoddi yn ein canolfannau hamdden a safleoedd awyr agored fel Canolfan Chwaraeon y Barri a chaeau chwarae Butrills.
7. Gweithio i wella iechyd ein cymunedau a hyrwyddo brechu a sgrinio.
8. Gwneud cymunedau'n fwy diogel trwy gefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed ac amddiffyn pobl rhag pob math o drais.
9. Gweithio i amddiffyn iechyd, diogelwch a lles economaidd ein cymunedau drwy safonau iechyd yr amgylchedd a masnach.
10. Cefnogi pobl i fyw yn eu cartrefi eu hunain yn hirach.



11. Gweithio gyda phartneriaid i leihau digartrefedd.
12. Cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy o ansawdd da.
13. Adeiladu 73 o gartrefi Cyngor newydd ar draws y Fro.
14. Penodi datblygwr i Bartneriaeth Tai Caerdydd a'r Fro.
15. Helpu i ailgartrefu aelwydydd bregus yn y Fro a darparu'r cymorth sydd ei angen arnynt.
16. Parhau â'n gwaith fel Sir Noddfa i gefnogi a chroesawu'r rhai sy'n ffoi rhag triniaeth greulon ac annheg.
17. Cryfhau gwaith partneriaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro er mwyn gwella rhannu data.
18. Galluogi pobl hŷn i fyw mor annibynnol â phosibl gan ddefnyddio Model Cynghrair y Fro.
19. Ehangu 'Eich Dewis' sy'n gwella rheolaeth yr unigolyn dros ei ofal yn ei gartref ei hun.
20. Gweithio gyda phlant a'u teuluoedd i wella lles.
21. Cynyddu llety yn y Fro er mwyn caniatáu i'n plant sy'n derbyn gofal aros yn yr ardal.
22. Amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn perygl o esgeulustod, cam-drin, ac ecsploetiaeth.





# Amcan Pedwar:

**Parchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd**

## Yn 2024-25 byddwn yn:

1. Gweithio ar Prosiect Sero, ein Cynllun Her Newid Hinsawdd.
2. Ymateb i’r argyfwng natur.
3. Symud ymlaen gyda Chynllun Datblygu Lleol y Cyngor.
4. Defnyddio taliadau gan ddatblygwyr adran 106 ifuddsoddi mewn addysg, trafnidiaeth fwy ecogyfeillgar, cyfleusterau cymunedol, adeiladau, y celfyddydau, a diwylliant.
5. Gwella ailgylchu ac ailddefnyddio i gyfrannu at strategaeth ‘Tuag at Ddyfodol Diwastraff’ Llywodraeth Cymru.
6. Datblygu ymgyrch ‘balchder yn ein cymuned’, gan weithio gyda phartneriaid i ofalu am ein hamgylchedd trwy leihau sbwriel a gwneud mwy o fannau tyfu.
7. Cefnogi cyfleoedd ar gyfer teithio llesol (cerdded a beicio) gan gynnwys mwy o lonydd beicio.
8. Ychwanegu mwy o bwyntiau gwefru cerbydau trydan.
9. Helpu’r Gwasanaeth Trafnidiaeth Cymunedol Greenlinks presennol a thrafnidiaeth gymunedol arall yn y Fro i ddefnyddio cerbydau tacsi trydan.
10. Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru i wella ansawdd ac amlder trafnidiaeth gyhoeddus.



11. Gwella arwynebedd y ffordd.
12. Cefnogi opsiynau trafnidiaeth mwy ecogyfeillgar i staff y Cyngor gan gynnwys e-feiciau a cherbydau trydan.
13. Gweithio gyda phartneriaid ar Gynllun Ynni Ardal Leol (CYAL) i greu system ynni yn y dyfodol.
14. Gwella adeiladau'r Cyngor i'w gwneud yn garbon isel/sero gan gynnwys ein hysgolion.
15. Adeiladu cartrefi Cyngor newydd a gwella'n cartrefi presennol er mwyn bod mor agos â phosibl at garbon sero a bod yn fwy ynni-effeithlon.
16. Gweithio gyda chymunedau sydd mewn perygl o lifogydd i ddatblygu atebion lleol.
17. Gwneud yn siŵr bod ein hansawdd aer yn well.





Bydd pob gwasanaeth yn y cyngor hefyd yn creu cynllun manwl yn dweud beth fyddan nhw'n ei wneud yn 2024-25. Byddwn yn gwirio ein cynnydd gyda'n cynlluniau gydag adroddiadau rheolaidd am beth rydym wedi'i wneud a ble mae angen i ni wneud mwy.



## Am fwy o wybodaeth...

Gallwch gael gwybodaeth am newyddion a digwyddiadau diweddar:-

www.bromorgannwg.gov.uk

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

Cyngor Bro Morgannwg